Ein nod yw rhoi mwynhad a chynyddu diddordeb y myfyrwyr yn Hanes, a rhoi sylfaen gadarn iddynt, pe dymunent, ar gyfer astudiaeth bellach o'r pwnc. Mae Hanes yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel pwnc academaidd. Profa i gyflogwr bod y myfyrwr yn gallu delio'n effeithiol â chorff sylweddol o wybodaeth a gwneud synnwyr ohono. Yn ogystal â bod yn ddiddorol ynddo'i hun, mae astudio hanes yn cynnig gweledigaeth a all ein helpu i ddeall digwyddiadau'r byd sydd ohoni. Mae'r cwrs Safon Uwch yn agored i unrhyw fyfyrwr. Er yn fanteisiol i gael T.G.A.U yn y pwnc, nid yw'n angenrheidiol.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

Caiff ddau gyfnod penodol eu hastudio dros y ddwy flynedd:

### Hanes Cymru a Lloegr, tua 1880-1980.

Astudir amrediad o destunau yn ymwneud ag agweddau ar hanes Cymru a Lloegr, tua 1880-1980. Bydd angen i fyfyrwyr ystyried y broses o newidiadau hanesyddol ynghyd ag achosion, canlyniadau ac arwyddocâd hynny yn y tymor hir a'r tymor byr. Yn ogystal bydd rhaid ystyried natur gyfnewidiol cymdeithas, ynghyd â tharddiad, natur ac effaith newidiadau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a chrefyddol.

### Yr Almaen Natsiaidd, tua 1933-1945.

Bydd angen astudio'n fanwl amrediad o destunau hanesyddol a phroblemau'n ymwneud â'r Almaen Natsiaidd, tua 1933-1945. Yn eu hastudiaethau, bydd angen i fyfyrwyr ystyried amrediad o berspectifau, yn cynnwys materion gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol a diwylliannol, a hynny'n bennaf trwy astudio amrediad eang o ffynonellau hanesyddol o bob math, rhai o'r cyfnod a rhai diweddarach, ynghyd â dehongliadau hanesyddol.

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	HY 1	Astudiaeth o Gyfnod <ul style="list-style-type: none"> <li>Hanes Cymru a Lloegr 1880-1929</li> <li>Gwleidyddiaeth Plaid 1900-1940</li> </ul>	Arholiad ysgrifenedig 30%
	HY 2	Astudiaeth Fanwl <ul style="list-style-type: none"> <li>Yr Almaen Natsiaid 1933-1945</li> </ul>	Arholiad ysgrifenedig 20%
Uwch	HY 3	Asesiad Mewnol <ul style="list-style-type: none"> <li>Hitler a'r Holocaust</li> </ul>	Asesiad Mewnol Traethawd Hir 20%
	HY 4	Astudiaeth o Gyfnod a Manwl <ul style="list-style-type: none"> <li>Dirwasgiad a Chaledi 1929-1951</li> <li>Diwygio Cymdeithasol 1880-1980</li> <li>Cefnogaeth, Gwrthwynebiad a Gwrthsafiad o fewn y Drydydd Reich</li> </ul>	Arholiad ysgrifenedig 30%

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae'r pwnc yn sylfaen dda ar gyfer llifer o gyrsgiau addysg uwch ac i yrfaoedd megis bancio, y gyfraith, newyddiadurfaeth, dysgu a barddedu.

## Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	<b>CBAC</b> ( <a href="http://www.cbac.co.uk">www.cbac.co.uk</a> )

### Pam astudio Llywodraeth a Gwleidyddiaeth?

Ychydig iawn o bynciau sydd yn ymwneud â'n bywydau pob dydd gymaint â Llywodraeth a Gwleidyddiaeth. Mae gwleidyddiaeth yn dominyddu'r newyddion, ac mae cyfreithiau newydd yn penderfynu sut yr ydym yn cael ein haddysgu, ein cartrefi, ein gofalu mewn ysbytai a'n diogelu rhag trais. Mae astudio gwleidyddiaeth yn datblygu amrywiaeth o sgiliau sydd yn addas ar gyfer pob math o astudio pellach. Byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o sefydliadau a chyfundrefnau gwleidyddol Prydain ac America, ynghyd â sgiliau dadansoddi, ymchwilio ac ysgrifennu estynedig, sgiliau holl bwysig i brif ysgolion. Mae'r cwrs Safon Uwch yn agored i unrhyw fyfyrwr, er disgwylir eich bod wedi ennill cymhwyster TGAU Gradd C yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

### Beth yw cynnwys y cwrs?

Ar Safon UG, bydd ymgeiswyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth eang o system wleidyddol y DU, trwy astudio dwy uned orfodol. Mae'r uned gyntaf yn canolbwyntio ar gyfranogiad ac ymddygiad pleidleisio, systemau etholiadol, pleidiau gwleidyddol a charfanau pwysu/mudiadau protest; a'r ail uned yn canolbwyntio ar llywodraeth fel proses gan edrych ar strwythurau seneddol, adrannau gweithredol creiddiol a llywodraethu aml-lefel yng Nghymru ac yn y DU. I'r rheini sydd yn parhau hyd at Safon Uwch, gwelir Arbenigaeth bellach trwy unedau sy'n canolbwyntio ar y sefyllfa wleidyddol yn yr UDA

Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
<b>UG</b>		
GP1	<b>Gwleidyddiaeth, pobl a chyfranogiad</b> Systemau etholiadol Pleidiau Gwleidyddol Carfannau Pwysu a Mudiadau Protest	Arholiad ysgrifenedig 1 ½ awr o hyd 25%
GP2	<b>Llywodraeth Cymru Fodern</b> Cyfansoddiad Prydain Senedd Prydain a Chynulliad Cymru Yr Adran Weithredol yng Nghymru a San Steffan	Arholiad ysgrifenedig 1 ½ awr o hyd 25%
<b>Uwch</b>		
GP3	<b>Gwleidyddiaeth yr UDA</b> Y Broses Etholiadol a Democratiaeth Uniongyrchol Pleidiau Gwleidyddol Patrwm Pleidleisio	Arholiad ysgrifenedig 1 ½ awr o hyd 25%
GP4	<b>Llywodraeth yr UDA</b> Cyfansoddiad yr UDA Adran Deddfwriaeth y Llywodraeth: Y Gyngres Adran Weithredol y Llywodraeth	Arholiad ysgrifenedig 1 ½ awr o hyd 25%

### Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae astudio gwleidyddiaeth yn gallu eich helpu i gael ystod eang o swyddi gwahanol mewn meysydd gwahanol. Enghreifftiau o rhain yw dysgu, ymchwilio, y cyfngau, cyflwyno, gweithio ym myd gwleidyddiaeth, y gyfraith neu fusnes.

## Adeiladwaith (BTEC)

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
Dwy Flynedd	BTEC Lefel 2 Diploma mewn Adeiladwaith a dwy Radd C neu uwch, neu 2 BTEC Diploma Lefel 2 gyda SHC Rhif.	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	<b>EDEXCEL</b> ( <a href="http://www.edexcel.co.uk">www.edexcel.co.uk</a> )

### Pam astudio Adeiladwaith?

Mae'r cwrs yn cyflwyno myfyrwyr i amrywiaeth eang o wybodaeth sy'n gysylltiedig ag adeiladu. Mae'r cwrs yn cael ei gydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel dilyniant tuag at gyfleoedd proffesiynol o fewn y Diwydiant Adeiladu. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys dysgu yn y dosbarth, adeiladu ac arolygu tir. Mae gwaith yn cael ei asesu trwy aseiniadau ysgrifenedig a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol gan gynnwys profi deunyddiau, arolygu a gosod prosesau.

### Beth yw cynnwys y cwrs?

	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
Dwy flynedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Iechyd, Diogelwch a Lles mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiladu</li> <li>Adeiladu Cynaliadwy</li> <li>Mathemateg mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiladu</li> <li>Gwyddoniaeth a Deunyddiau mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiladu</li> <li>Technoleg Adeiladu a Dylunio mewn Adeiladu a Pheirianneg Sifil</li> <li>Technoleg Adeiladu mewn Adeiladwaith</li> <li>Rheoli Prosiect mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiladu</li> <li>Manylion graffigol mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiladu</li> <li>Mesur, Amcangyfrif a Tendro Prosesau mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiladu</li> </ul>	Asesu Parhaol

### Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Gall cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus galluogi myfyrwyr i symud ymlaen i swyddi rheoli dan hyfforddiant, neu ddilyn gyrfa mewn Pensaernïaeth Arolygu Meintiau, Adeiladu Arolygu a Rheoli Adeiladu.

# Astudiaethau Cyfryngau

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	<b>CBAC</b> ( <a href="http://www.cbac.co.uk">www.cbac.co.uk</a> )

## Pam astudio Astudiaethau'r Cyfryngau?

- Cwrs cyfoes, diddorol a chyffrous yw hwn sy'n rhoi cyfleodd dir i fyfyrwyr ddatblygu eu safbwyntiau a'u dehongliadau.
- Rydych yn datblygu dealltwriaeth feirniadol o'r cyfryngau drwy ymgysylltu â chynnyrch a chysyniadau'r cyfryngau a thrwy gymhwyso sgiliau cynhyrchu'n greadigol.
- Mae'r cwrs Safon Uwch yn agored i unrhyw fyfyrwr. Er yn fanteisiol i gael T.G.A.U yn y pwnc, nid yw'n angenrheidiol.
- Rydych yn datblygu'n annibynnol o ran eich sgiliau ymchwilio a chymhwyso i'ch gwaith cynhyrchu, ynghyd â datblygu barn a dehongliadau eich hun.
- Dyma gwrs ar gyfer myfyrwyr sy'n gallu deall, defnyddio a chreu ffyrdd amrywiol o gyfathrebu yn yr oes ddigidol.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

- Dysgir sut i greu testunau cyfryngol proffesiynol a gwreiddiol gan ddefnyddio'r offer mwyaf diweddar. Gall y rhain amrywio o sgrïpto stori fer ar gyfer y sgrîn neu radio; cynllunio a chynhyrchu ffilm, rhaglen deledu neu radio; creu gwefan; cynhyrchu posteri ffilm neu destun print megis papur newydd, cylchgrawn, ymgyrch hysbysebu.
- Bydd yr ystod eang o destunau a astudir yn ymestyn dealltwriaeth o faterion moesol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y byd sydd ohoni.
- Datblygu dealltwriaeth feirniadol o'r cyfryngau nid yn unig trwy astudiaeth o gynnyrch a chysyniadau cyfryngol, ond hefyd wrth ddefnyddio sgiliau creadigol yn y broses gynhyrchu.
- Bydd cyfle archwilio prosesau cynhyrchu amrywiol a'r technolegau digidol mwyaf addas trwy'r cyfrwng ffilm; teledu; gemau cyfrifiadurol; hysbysebu; cylchgronau; y rhyngwrwyd.

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	MS1	Cynrychioliadau yn y Cyfryngau a Derbyniad	Arholiad 25%
	MS2	Cynhyrchu Testunau o'r Cyfryngau	Gwaith Cwrs 25%
Uwch	MS3	Archwiliad a Chynhyrchiad Cyfryngol	Gwaith Cwrs 25%
	MS4	Y Cyfryngau: Testun, Diwydiant a Chynulleidfa	Arholiad 25%

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae'r gyrfâu sydd yn agored i fyfyrwr sydd yn astudio'r Cyfryngau yn cynnwys bod yn gynhyrchydd, ymchwilydd, dylunydd ym myd hysbysebu, gemau cyfrifiadurol, newyddiadurwr teledu neu'r wasg, technegydd camera, allfwrdd, darllynydd, ymchwilydd academaidd, sefidiwr golygydd a chyflwynydd.

# Ffrangeg

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2- <i>Awgrymir y byddai angen o leiaf gradd B TGAU yn y pwnc i'w ddilyn yn UG</i>	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	<b>CBAC</b> ( <a href="http://www.cbac.co.uk">www.cbac.co.uk</a> )

## Pam astudio Ffrangeg?

Efallai nad ydych yn meddwl bod astudio iaith yn angenrheidiol yn y byd modern; mae pawb yn siarad Saesneg, nad ydynt? Na! Mae ieithoedd ym mhobman o'n cwmpas; mae eu hangen ym mhob math o sefyllfa, tra ym myd gwaith, ar wyliau neu mewn bywyd bob dydd. Rydym i gyd yn byw mewn cymdeithas aml-ieithoedd fyd-eang.

Mae astudio iaith / ieithoedd at Safon Uwch yn ddewis doeth os ydych am ddilyn cwrs diddorol sydd yn cynnig amrywiaeth o bosibiliadau gyrfa a hwyl ar y ffordd. Mae dilyn ieithoedd Safon Uwch yn rhoi cyfle i astudio agweddau gwahanol o fywyd (cymdeithas, hanes, y cyfryngau ac ati) yn y wlad, gan ddatblygu ystod eang o wybodaeth a sgiliau.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

Astudir y themâu Hamdden a Dulliau byw, Yr Unigolyn a'r Gymdeithas (UG); Materion Amgylcheddol, Materion Cymdeithasol a Gwleidyddol (U2)

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	FN1	Trafodaeth o dopigau dan reolaeth yr arholwr Sgwrs gyffredinol	Arholiad Llafar 20%
	FN2	Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu Gwrando ac Ymateb Darllen ac Ymateb Tasgau gramadeg Cyfieithu o'r iaith darged i Gymraeg Traethawd	Arholiad Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu yn Ffrangeg 30%
Uwch	FN3	Trafodaeth strwythuredig Exposé llafar	Arholiad Llafar 20%
	FN4	Gwrando ac Ymateb Darllen ac Ymateb Cyfieithu o Gymraeg i'r iaith darged Traethawd Astudiaethau Cyfeiriedig – astudiaeth ffilm neu lyfr	Arholiad Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu yn Ffrangeg 30%

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae Safon Uwch mewn iaith fodern yn ddefnyddiol iawn ar gyfer sawl swydd a maes, gan gynnwys Y Gyfraith, Meddycaeth, Newyddiaduriaeth yn ôgyst, a swyddi ieithyddol traddodiadol megis dysgu, cyfieithu. Mae hefyd yn gweddu'n radda gyda sawl dewis pynciol, gan gynnwys y Gelfyddydau (Celf, Drama), y Dyniaethau (Hanes / Ddeariadaeth), Saesneg, Gymraeg a Gwyddoniaeth.

Am fwy o wybodaeth: [www.whystudylanguages.ac.uk](http://www.whystudylanguages.ac.uk)

# Ffiseg

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	5 cymhwyster lefel 2. <i>Gradd B neu'n uwch yn Ffiseg yn ddymunol.</i>	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	<b>CBAC</b> ( <a href="http://www.cbac.co.uk">www.cbac.co.uk</a> )

## Pam astudio Ffiseg?

- Mae Ffiseg yng nghalon pob peth ac yn bwnc diddorol iawn i astudio yn yr ysgol, yn y brif ysgol ac yn bellach.
- Mae Ffiseg yn helpu darganfod atebion i gwestiynau anodd fel sut ddechreuodd y bydysawd a sut y bydd yn dod i ben? Beth yw twll du? Ydy e'n bosib teithio yn ôl mewn amser?
- Ffiseg sy'n darparu'r sylfaen i ddatblygiad technolegau newydd a dyfodol ein byd. O ddarnau lleiaf ein cyrff i'r galaethau mwyaf,
- Bydd astudio Ffiseg hefyd o gymorth wrth i ni ddatblygu'r sgiliau trosglwyddadwy hanfodol sydd eu hangen ym myd gwaith.

Pobl chwilfrydig sy'n hoffi gwybod sut a pham mae pethau yn digwydd sy'n gwneud Ffisegwyr da. Mae angen sgiliau rhesymegol a rhifedd da a'r gallu i ddatrys problemau. Gwnawn ddefnyddio helaeth o dechnoleg gwybodaeth i gynnal arbrofion, gan ddefnyddio sgiliau llythrennedd a chyfathrebu da i gyflwyno gwaith yn gyhoeddus neu ar ffurf adroddiad. I astudio Ffiseg ym mlwyddyn 12 fydd rhaid ennill gradd B neu'n uwch yng Ngwyddoniaeth TGAU. Gallwn ystyried disgybl â gradd C dim ond iddo berchen ar y sgiliau angenrheidiol i astudio Ffiseg. Byddai gradd C TGAU Maths yn ddymunol

## Beth yw cynnwys y cwrs?


Mae'r cwrs Ffiseg yn cynnwys llawer o waith ymarferol a fydd yn cael ei ddefnyddio fel sail i drafodaeth bellach ac i ddatrys problemau.

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	PH1	Mudiant, Egni a Gwefr	Arholiad Allanol 20%
	PH2	Tonnau a Gronynnau	Arholiad Allanol 20%
	PH3	Ffiseg ymarferol	Arholiad Ymarferol 10%
Uwch	PH4	Osgiliadau a Meysydd	Arholiad Allanol 18%
	PH5	Electromagnetdd, Niwclysau a Opsiy-nau	Arholiad Allanol 22%
	PH6	Ffiseg Ymarferol	Arholiad Ymarferol 10%

Opsiynau: Cerryntau Eilaidd, Chwildroadau yn Ffiseg, Deunyddiau Mesuriadau Biolegol a Delweddu Meddygol, Achosion Egri.

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae Ffiseg yn tan cyhoeddi nifer o swyddi ac astudiaethau megis Cyfrifiadureg, Electroneg, Meddygaeth, meysydd Paranneg, Seryddiaeth a Chyrrifeg.



# Bioleg

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2 <i>O leiaf B TGAU yn y pwnc i ddilyn yn UG</i>	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	<b>CBAC</b> ( <a href="http://www.cbac.co.uk">www.cbac.co.uk</a> )

## Pam astudio Bioleg?

Mae'r cwrs Bioleg yn cyffrous ond yn heriol, gan roi cyfle i ddatblygu dealltwriaeth pellach o sut mae organebau yn gweithio ac yn rhyngweithio gyda'u hamgylchedd a gyda'i gilydd. Mae'r cwrs yn rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau sydd yn ddefnyddiol o fewn y byd diwydiant, ymchwil a datblygiad a meddygol. Mae'r sgiliau byddwch yn datblygu yn cynnwys ymchwilio'n annibynnol, datrys problemau a rheoli amser yn effeithiol iawn. Bydd angen i ymgeiswyr deall syniadau sylfaenol Biolegol, i sicrhau dealltwriaeth gadarn o ddamcaniaethau ag astudiwyd.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

- Biocemeg a'r adeileddau sy'n hanfodol i organebau byw gweithredu
- Amrywiaeth organebau, gyda'r pwyslais ar yr addasiadau cymharol
- Cyflenwadau egni mewn organebau byw, yn ogystal â microbioleg a phoblogaethau
- Amrywiad ac esblygiad, yn ogystal â geneteg a chymwysiaidau
- Cyfle i wneud gwaith ymarferol a defnydd microsgopau er mwyn ymestyn dealltwriaeth o'r pwnc.

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	BY1	<b>Biocemeg sylfaenol a threfniadaeth</b>	Arholiad ysgrifenedig
	BY2/HB2	<b>Bioamrywiaeth a ffisioleg systemau'r corff</b>	Arholiad ysgrifenedig
	BY3	<b>Asesiad ymarferol</b>	Asesiad mewnlol
Uwch	BY4/HB4	<b>Metabolaeth, microbioleg a homeostasis</b>	Arholiad ysgrifenedig
	BY5	<b>Yr amgylchedd, geneteg ac esblygiad</b>	Arholiad ysgrifenedig
	BY6	<b>Asesiad ymarferol</b>	Asesiad mewnlol

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae gyrfaoedd Biolegol yn amrywiol, yn diddorol ac yn rhoi boddhad mawr. Mae cyfleoedd gyrfaoel ar gyfer graddediogion Bioleg yn cynnwys: meddygaeth, milfeddygaeth, deintyddiaeth, gwyddoniaeth ffforensig, fferylllydd, gwyddoniaeth amgylcheddol, bioleg forol, swoleg, therapi genynnol, ffisiotherapi, nyrsio, athro neu waith iechyd a diogelwch.



# Arlwyo a Lletygarwch

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
Dwy Flynedd	4 Cymhwyster Lefel 2	BTEC Lefel 3	<b>EDEXCEL</b> (www.edexcel.co.uk)

## Pam astudio Arlwy a Lletygarwch?

Mae'r cwrs yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr:

- ymroi i ddysgu sy'n berthnasol iddynt a fydd yn darparu cyfleoedd i ddatblygu amrediad o sgiliau a thechnegau, sgiliau a phriodolddau personol sy'n allweddol i berfformiad llwyddiannus mewn bywyd gwaith
- cywain gwybodaeth a dealltwriaeth sydd angen i symud ymlaen yn ei diwydiant dewisol
- llwyddo i ennill cymhwyster cenedlaethol cydnabyddedig galwedigaethol Lefel 3
- symud ymlaen i swydd mewn sector galwedigaethol penodol
- symud ymlaen i gymwysterau galwedigaethol a/neu cymwysterau cyffredinol perthnasol
- ddatblygu sgiliau ymarferol

## Beth yw cynnwys y cwrs?

Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
Dwy flynedd	Uned 1	Datblygu Perthnasau Gwaith mewn Lletygarwch
	Uned 2	Iechyd a Diogelwch mewn Amgylchedd Gwaith Lletygarwch
	Uned 3	Paratoi, Coginio a Gorffen Sawsiau Poeth
	Uned 4	Paratoi, Coginio a Gorffen Dressing a Sawsiau Oer
	Uned 5	Paratoi, Coginio a Gorffen Prydau Pysgod
	Uned 6	Paratoi, Coginio a Gorffen Prydau Cig
	Uned 7	Paratoi, Coginio a Gorffen Prydau Ffowlen
	Uned 8	Paratoi, Coginio a Gorffen Prydau Llysiau

Mae'r asesiad yn faen prawf gyfeiriol, yn seiliedig ar llwyddiant maen prawf asesiad penodol. Asesir yr holl unedau drwy brofion aml ddewis a osodwyd, a marciwyd, yn allanol.

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae nifer o wahanol opsiynau i fyfyrwyr ar ddiwedd y cwrs e.e. symud ymlaen i addysg uwch neu i fyd gwaith a/neu hyfforddiant.



# Dylunio a Thechnoleg

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	<b>CBAC</b> (www.cbac.co.uk)

## Pam astudio Dylunio Cynnyrch a / neu Decstilau?

- Mae'r byd yr ydym yn byw ynddo yn llawn cynhyrchion sydd wedi cael eu dylunio i fodloni anghenion gwahanol bobl yn ein cymdeithas. Mae gofynion modern y cwsmer yn gyson yn cynyddu ar gyfer cynhyrchion. O ganlyniad mae dylunwyr a pheirianwyr gyda rôl allweddol mewn datblygu datrysiadau newydd ac addas ar gyfer y gofynion technolegol yma. Dim ond y dylunwyr mwyaf arloesol a fydd yn gallu cynhyrchu cynhyrchion sy'n addas, diogel a llwyddiannus a fydd yn cefnogi bywyd diogel, cynaliadwy i ni oll yn y 21ain ganrif.
- Mae cwrs mewn Dylunio a Thechnoleg yn cynnig cyfle unigryw yn y cwricwlwm i ymgeiswyr ddarganfod a datrys problemau go iawn trwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau yn ymwneud â'u diddordebau personol. Mae Dylunio a Thechnoleg yn datblygu sgiliau rhyngddisgyblaethol yr ymgeiswyr, eu gallu i feddwl mewn ffordd ddyfeisgar ac arloesol, eu creadigrwydd a'u hannibyniaeth.
- Mae'n fuddiol fod ymgeiswyr eisoes wedi meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o Ddylunio a Thechnoleg trwy ddilyn manyleb TGAU neu TGAU (Cwrs Byr) mewn Dylunio a Thechnoleg gan gyrraedd gradd C neu uwch. Yn dilyn o hyn gall y fanyleb hon gael ei dilyn gan unrhyw ymgeisydd, beth bynnag y bo ei ryw/rhyw neu gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad	
UG	DT1	Bydd dwy adran yn y papur hwn a fydd yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeiswyr, gan dynnu ar y cynnwys pwnc o un maes penodol a restrir isod: <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylunio ac arloesi</li> <li>Dadansoddi cynnyrch</li> <li>Defnyddiau a chydannau</li> <li>Arfer diwydiannol a masnachol.</li> </ul> Mae cwestiynau Adran A yn gofyn am atebion byr. Mae cwestiynau Adran B yn gofyn am atebion penagored ar ffurf traethodau.	Papur Arholiad Allanol Dylunio Cynnyrch 20%
	DT2	Bydd yr ymgeiswyr yn cyflwyno un dasg dylunio a gwneud a fydd yn bodloni'r meini prawf asesu ar gyfer UG.	Tasg Dylunio a Gwneud 30%
Uwch	DT3	Bydd tair adran yn y papur hwn a fydd yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeiswyr, gan dynnu ar gynnwys pwnc cyfan un maes penodol. Mae cwestiynau Adran A ac Adran B yn gofyn am atebion byr ac mae cwestiynau Adran C yn gofyn am atebion penagored ar ffurf traethodau a byddant yn rhoi sylw penodol i gynnwys y fanyleb a restrir isod: <ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddiau a chydannau</li> <li>Dadansoddi cynnyrch</li> <li>Rhyngweithiad cyhoeddus</li> <li>Dylunio ac arloesi</li> <li>Arfer diwydiannol a masnachol</li> <li>Cyfrifoldeb dynol</li> <li>Systemau cynhyrchu a rheolaeth</li> <li>Prosesau</li> </ul>	Papur Arholiad Allanol 20%
	DT4	Bydd yr ymgeiswyr yn ymgymryd ag un project sylweddol. Bob blwyddyn bydd CBAC yn gosod wyth thema ar gyfer y project, er y gall yr ymgeiswyr hefyd gyflwyno eu cynigion eu hunain i'w cymeradwyo. Mae'r project yn gofyn i'r ymgeisydd ddangos y gallu i gyfuno sgiliau dylunio a gwneud a gwybodaeth a dealltwriaeth.	Prif Brosiect 30%

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Gyrfâu posib yw Pensaerniaeth, adeiladwaith, rheolaeth dechnoleg, peirianeg, rheoli gwefannau, dylunio meddalwedd, dylunio arddangosfeydd, dylunio ffasiwn graffigol, dylunio mewnol, dylunio cynnyrch, ymchwiliad technolegol, amgylchedd, amgylchedd, gwyddoniaeth defnyddiau.

# Drama ac Astudiaethau Theatr

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	<b>CBAC</b> ( <a href="http://www.cbac.co.uk">www.cbac.co.uk</a> )

## Pam astudio Drama ac Astudiaethau'r Theatr?

- Rydych yn datblygu diddordeb a mwynhad mewn drama a theatr fel perfformwyr ac aelodau gwybodus o gynulleidfa.
- Rydych yn datblygu eich dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o arwyddocâd dylanwadau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol ar ddatblygiad drama a'r theatr.
- Byddwch yn derbyn nifer o gyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau dramatig a theatraidd â'r gallu i weithio'n greadigol a chydweithio i gyrraedd bwriadau dramatig ar y cyd.
- Byddwch yn datblygu a defnyddio theorïau ac ymarfer trwy ddealltwriaeth o gysyniadau beirniadol a defnydd o derminoleg y pwnc.
- Mae'r cwrs Safon Uwch yn agored i unrhyw fyfyrwr. Er yn fanteisiol i gael TGAU yn y pwnc, nid yw'n angenrheidiol.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

- Byddwch yn astudio damcaniaethau Arloeswyr Drama, yn eu defnyddio mewn gwersi ac mewn perfformiadau byw.
- Byddwch yn astudio dramâu cyfoes a hanesyddol gan ddadansoddi'r dramâu hynny yn barod ar gyfer arholiadau ysgrifenedig.
- Darperir cyfleoedd i wyllo amrywiaeth o berfformiadau byw gan ddatblygu sgiliau ysgrifennu adolygiadau.
- Datblygir sgiliau ysgrifennu sript a chreu gwaith dyfeisiedig.
- Cynnigir amrywiaeth o gyfleoedd allgyrsiol i ymweld â'r theatr, mynychu gweithdai er mwyn datblygu sgiliau perfformio a'u defnyddio'n eich gwaith.
- Gellid ddatblygu sgiliau technegol (goleuadau, sain) a chynllunio (gwisgoedd, set) yn lle perfformio.

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	DA1	<i>Gweithdy Perfformio</i>	Arholiad Ymarferol 20%
	DA2	<i>Testun mewn Perfformiad</i>	Arholiad Ysgrifenedig 30%
Uwch	DA3	<i>Perfformiad ar thema osod</i>	Arholiad Ymarferol 30%
	DA4	<i>Testun mewn cyd-destun</i>	Arholiad Ysgrifenedig 20%

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae'r gyrfâu sydd yn agored i fyfyrwr sydd yn astudio Drama ac Astudiaethau'r Theatr yn cynnwys bod yn actor proffesiynol (theatr, teledu, ffilm, radio a chyryngau) rhyngwyllo, trosleisio (teledu, ffilm neu radio), cyflwynydd, cyfarwyddwr, sriptiwr, athro, darlithydd, hyfforddi pŵl proffesiynol a Chorfforaetholi siarad yn gyneddus, therapydd Drama, technegydd theatr, rheolwr llwyfan/theatr, cyflwynydd goleuadau, cynllunydd gwisgoedd a chynllunydd sain.

# Astudiaethau Crefyddol

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	<b>CBAC</b> ( <a href="http://www.cbac.co.uk">www.cbac.co.uk</a> )

## Pam astudio Astudiaethau Crefyddol?

- Mae'r cwrs yn cynnig parhad i'r hyn mae'r myfyrwyr eisoes wedi astudio am grefydd gan ganolbwyntio ar rôl a pherthnasedd crefydd yn ein cymdeithas heddiw.
- Dyma gwrs cyfoes sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr i astudio amrywiaeth o themâu a materion crefyddol a hynny o safbwyntiau moesol, cyfreithiol, cymdeithasol a diwylliannol.
- Rhydd y cwrs gyfle i fyfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau rhesymu a hynny wrth bwysu a mesur dysgeidiaethau crefyddol a safbwyntiau moesol yn ngoleuni materion a digwyddiadau cyfoes.
- Wrth astudio amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol bydd cyfle i fyfyrwyr i ddatblygu eu gallu i fynegi barn yn gyfrifol wrth ymdrin â materion sensitif a dysgeidiaethau crefyddol.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	RS 1	<b>Cyflwyniad i Grefydd yn y Gymdeithas Gyfoes.</b> Themâu a astudir: <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Materion meddygol ac amgylcheddol. Dadleuon crefyddol a moesol sydd yn ymwneud ag Ewthanasia a Hawliau Anifelliaid.</i></li> <li><i>Crefydd a Theledu. Astudio'r modd mae themâu crefyddol yn cael eu portreadu ar y teledu.</i></li> <li><i>Crefydd a Chymuned. Trafod y modd mae dylanwad crefydd ar gymdeithas wedi gwahanu ac ymddangosiad Mudiadau Crefyddol Newydd.</i></li> <li><i>Crefydd a'r Unigolyn. Ymdrin â'r berthynas rhwng seicoleg a chrefydd.</i></li> </ul>	25% Arholiad
	RS 2	<b>Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd.</b> Themâu a astudir: <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Bodolaeth Duw. Dadleuon cosmolegol a Theolegol dros fodolaeth Duw.</i></li> <li><i>Her Drygioni a Dioddefaint i'r gred ym modolaeth Duw.</i></li> <li><i>Cyflwyniad i Brofiad Crefyddol a'i ddilysrwydd.</i></li> </ul>	25% Arholiad
Uwch	RS 3	<b>Naill ai Astudio Crefydd mewn Cymdeithas Gyfoes neu Astudio Athroniaeth Crefydd.</b>	25% Arholiad
	RS 4 H	<b>Crefydd a'r Profiad Dynol</b> <i>Astudir beth yw natur bywyd, marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth.</i> <i>(Fe fydd disgwyl i fyfyrwyr dynnu ynghyd yr hyn maent wedi astudio dros y ddwy flynedd er mwyn ysgrifennu traethawd. Fe fydd thema'r traethawd yn cael ei ryddhau mis Ionawr blwyddyn 13)</i>	25% Arholiad

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae pobl sydd â chymhwyster Astudiaethau Crefyddol yn medru dod o hyd i swyddau mewn amryw sefelydd yn arbennig mewn gyrfaoedd sydd yn delio â phobl ac sydd yn rhesymu a phwysu a mesur safbwyntiau. Er enghraifft, gall dealltwriaeth o fforddau diwylliant fod yn ddefnyddio pan yn ystyried gyfra ym myd meddygol, gwaith cymdeithasol, newyddiaduraeth, y Gyfraith, yr heddlu, byd addysu a llawer mwy.

# Busnes Cymhwysol (BTEC)

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
Dwy Flynedd	4 Cymhwyster Lefel 2	BTEC Lefel 3 Tystysgrif / Diploma	<b>EDEXCEL</b> (www.edexcel.co.uk)

## Pam astudio Busnes?

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i apelio at fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gweithio yn y byd busnes neu sydd am barhau ag astudiaethau yn y pwnc. Mae'r pedair uned graidd yn y Diploma Atodol yn rhoi myfyrwyr cyflwyniad i a dealltwriaeth o'r amgylchedd busnes, rheolaeth adnoddau, marchnata a chyfathrebu – sydd oll yn bwysig i lwyddiant sefydliadau busnes. Mae tystiolaeth asesu yn gallu amrywio a gallent gynnwys gwaith aseiniad a phrosiect, astudiaethau achos, asesiad yn y gweithle, chwarae rôl a chyflwyniadau llafar. Anogir myfyrwyr i ymchwilio a phwysleisio pwysigrwydd gweithio'n annibynnol yn ogystal â fel rhan o dîm. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi gweithwyr sydd yn gallu cyfathrebu'n effeithiol, ar lafar a gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig. Mae'r cymhwyster lefel 3 mewn Busnes yn darparu myfyrwyr gyda'r cyfle i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu yn ystod y cwrs.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
Bl.12	Uned 1	Yr Amgylchedd Busnes
	Uned 2	Adnoddau Busnes
	Uned 3	Cyflwyniad i Farchnata
Bl.13	Uned 4	Cyfathrebu mewn Busnes
	Uned 7	Cyfrifeg Reolaethol
	Uned 36	Dechrau Busnes Bach

Cyfres o dasgau asesu mewnol.  
Nid oes arholiad allanol.

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae'r gyrfâu sydd yn agored i fyfyrwr sydd yn astudio Busnes yn cynnwys; athro, darlithydd, cyfreithiwr, cyfrifydd, gweithio ym myd hysbysebu



# Daearyddiaeth

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	<b>CBAC</b> (www.cbac.co.uk)

## Pam astudio Daearyddiaeth?

- Cewch eich ysbrydoli gan y byd o'ch cwmpas, a chael pleser a boddhad o'r astudiaethau daearyddol a deall eu perthnasedd.
- Rydych yn cael y cyfle i ddatblygu a chymhwyso eich dealltwriaeth o gysyniadau a phrosesau daearyddol er mwyn deall a dehongli ein byd newidiol;
- Rydych yn datblygu eich ymwybyddiaeth o gymhlethdod rhyngweithiadau o fewn a rhwng cymdeithasau, economïau, diwyllïannau ac amgylcheddau o raddfa leol i raddfa fyd-eang;
- Byddwch yn datblygu fel dinasyddion byd-eang sy'n cydnabod sialensiau cynaliadwyedd a'r goblygiadau i fywydau eich hunain ac eraill;
- Cewch gyfle i wella fel dysgwyr beirniadol a myfyriol sy'n ymwybodol o agweddau a gwerthoedd, yn cynnwys rhai eich hunain;
- Byddwch yn dod yn fedrus mewn defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnolegau newydd drwy eich astudiaethau daearyddol o fewn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan.

## Beth yw cynnwys y cwrs?


Mae'r cwrs yn cydnabod y rhan hanfodol sydd i ddaearyddiaeth ym maes llafur yr 21<sup>ain</sup> ganrif. Mae'n hybu myfyrwyr i ddeall eu bywydau hwy eu hunain mewn sefyllfa fyd-eang ac i ddeall y materion hanfodol, cymhleth a rhyngberthynol y bydd yn rhaid iddynt eu hwynebu yn eu bywydau, materion megis newid hinsawdd, tlodi ac amddifadedd, symudiadau byd-eang mewn pŵer economaidd a'r sialens i ddefnyddio adnodd cynaliadwy. Mae'r fanyleb yn canolbwyntio ar y ddaear fel lle dynamig lle mae prosesau a newidiadau ffisegol, amgylcheddol a dynol yn rhyngweithio i gynhyrchu byd sy'n newid yn gyson ac y bydd y myfyrwyr yn mynd iddo yn fuan fel oedolion. Astudir cysyniadau a phrosesau pwysig yng nghyswllt lleoedd go iawn sy'n bodoli mewn cyswllt lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang.

Mae'n pwysleisio agwedd ymholi myfyriwr-ganolog at ddysgu sy'n hybu agwedd weithredol at syniadau a gwybodaeth. Er mwyn gallu deall y byd newidiol, bydd y myfyrwyr yn datblygu eu hagweddau a'u gwerthoedd eu hunain yn seiliedig ar eu hastudiaeth o rai materion cymhleth sy'n wynebu cymdeithas. Wrth iddynt ddatblygu agweddau a gwerthoedd byddant yn caffael ystorfia o sgiliau: llythrennedd, rhifedd, graffigedd, cartograffeg a SGD (GIS).

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	G1	Amgylcheddau Ffisegol Newidiol	Arholiad 25%
	G2	Amgylcheddau Dynol Newidiol	Arholiad 25%
Uwch	G3	Themâu Cyfoes ac Ymchwil mewn Daearyddiaeth	Arholiad/Gwaith Cwrs 30%
	G4	Cynaliadwyedd	Arholiad 20%

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae'r gyrfâu sydd yn agored i fyfyrwr sydd yn astudio Daearyddiaeth yn cynnwys bod yn feteorolegwyr, gwyddonydd hinsawdd, golluniwr trefol, cyfreithiwr, dysgu, darlithydd, swyddog amgylcheddol, ymgynghorydd amgylcheddol, arolygwyr, cyfrifydd, gweithio gyda'r ffordd a llawer mwy.





# Cymraeg

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG - blwyddyn Uwch - 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2 O leiaf gradd C TGAU mewn Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth	UG - Graddau A-E Uwch - Graddau A*-E	CBAC (www.cbac.co.uk)

## Pam astudio Cymraeg?

- Cwrs difyr a chynhwysfawr yw hwn sy'n rhoi cyfleoedd amrywiol i fyfyrwyr ddatblygu eu gallu i fynegi eu hunain yn y Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar mewn ystod eang o sefyllfaoedd a chyd-destunau.
- Anelir at ddatblygu sgiliau'r ymgeiswyr i ddefnyddio iaith â dychymyg gan ysgrifennu'n greadigol ac yn ffeithiol i amrywiaeth o bwrpasau.
- Hyrwyddir y gallu i ymateb i lenyddiaeth ac i ddeunyddiau diwylliannol cyfoes amlgyfrwng gan ennyn gwerthfawrogiad o etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru.
- Mae'r cwrs yn annog disgyblion i ddangos diddordeb, pleser a brwdfrydedd wrth astudio'r Gymraeg ac i gymryd eu lle priodol mewn cymdeithas ddwyieithog ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

- Mae'r Gymraeg yn ei hanfod yn bwnc sydd yn mynnu bod ymgeiswyr yn ystyried materion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol wrth ddarllen, astudio a thrafod ystod eang o lenyddiaeth Gymraeg sy'n rhychwantu'r canrifoedd.
- Ceir cyfle i astudio amrywiaeth o ffurfiau er enghraifft, Drama a Ffilm (CY1), Rhyddiaith yr Oesoedd Canol a'n Barddoniaeth gynharaf (CY5), Barddoniaeth yr Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain (CY3 a CY6) a rhai o Nofelau pwysicaf yr Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain (CY4).
- Yn Uned CY2, rhoddir cyfle i ymgeiswyr ymchwilio i bynciau llosg ein hoes ac i fynegi barn arnynt.
- Wrth astudio hengerdd Aneirin (CY5), mydryddiaeth Saunders Lewis (CY1) ac awen gyfoes Iwan Llwyd (CY3), cywyddau Dafydd ap Gwilym (CY5) a chrefft y Cyfarwydd (CY5) a'r Cyfarwyddwr Ffilm (CY1) cyflwynir rhaglen waith a fydd yn atgyfnerthu ac yn ehangu ymwybyddiaeth yr ymgeiswyr o le'r Gymraeg yn nhraddodiad llenyddol Ewrop.

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	CY1	Y Ffilm a'r Ddrama a Llafaredd	Arholiad llafar 20%
	CY2	Asesiad Mewnol Ysgrifenedig	Gwaith cwrs 15%
	CY3	Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth	Arholiad ysgrifenedig 15%
Uwch	CY4	Y Nofel a Llafaredd	Arholiad llafar 15%
	CY5	Y Chwedlau, Yr Hengerdd a'r Cywyddau	Arholiad ysgrifenedig 15%
	CY6	Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a Defnyddio'r Iaith	Arholiad ysgrifenedig 20%

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

O astudio'r Gymraeg fel pwnc mae posibilrwyddau gyrfaoel niferus. Os ydych chiwch ddilyn gyrfa mewn newyddiaeth neu yn y Cyfryngau, yn y llwyddiaeth leol neu'r Cynulliad, ym myd cysylltiadau cyhoeddus neu addysgu, dyma'r pwnc i'w hysbysu. Mae'r cwrs lu o gyfleoedd i unrhyw un sydd am swydd ble mae angen sgiliau'r Gymraeg neu awdl a graenus.

# Celf a Dylunio

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2 Yn fanteisiol o leiaf gradd C yn TGAU Celf	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	CBAC (www.cbac.co.uk)

## Pam astudio Celf a Dylunio?

- Cwrs cyfoes, anturus ac agored yw hwn sy'n hybu ymchwil ac arbrofi personol a rhoi cyfleoedd i'r myfyrwyr fynegi eu hunain.
- Bydd y myfyrwyr yn cael profiad o weithio gyda gwahanol brosesau ac o fewn amryw o ddisgyblaethau sy'n briodol i'r maes astudio a ddewisir ganddynt.
- Bydd myfyrwyr yn datblygu annibyniaeth cynyddol a hunan-gyfarwyddyd o ran hyd a lled eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau creadigol.
- Mae hwn yn cwrs ar gyfer myfyrwyr sy'n cymryd bleser go iawn yn y byd gweledol ac sydd eisiau deall, datblygu a chreu iaith weledol bersonol, ynghyd â ffurf o fynegiant.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

- Lluniwyd y cwrs i gwmpasu pedwar prif faes lle ymdrinnir yn feirniadol, yn ymarferol ac yn ddamcaniaethol â chelf, crefft a dylunio. Mae'r rhain yn pwysleisio dealltwriaeth dda-dansoddol, arbrofi ymarferol, ymchwilio a mynegiant unigol.
- Mae'r cwrs Celf a Dylunio yn cydblethu'r tair disgyblaeth Celf, Crefft a Dylunio. Bydd TAG UG a safon Uwch mewn Celf a Dylunio yn rhoi llawer o gyfleoedd i gymysgu cyfryngau a syniadau, prosesau a materion.
- Bydd y cwrs yn ehangu ar brofiadau, yn datblygu'r dychymyg, yn meithrin creadigrwydd ac yn hybu datblygiad personol a chymdeithasol.
- Bydd myfyrwyr yn ymdrin â gwaith ymarferol a beirniadol/cyd-destunol trwy amryw o brosesau a chyfryngau 2D a/neu 3D

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	ART1	Portffolio Celf a Dylunio	Gwaith Cwrs 30%
	ART2	Aseiniad dan Oruchwyliaeth	Arholiad 20%
Uwch	ART3	Ymchwiliad Personol	Gwaith Cwrs 30%
	ART4	Aseiniad dan Oruchwyliaeth	Arholiad 20%

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae'r cwrs hwn yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Celf a Dylunio neu faes pernasol trwy gwrdd addysg uwch sy'n gallu arwain i yrfaedd mewn therapydd celf, cyfansawdd wynebol, curadur, archifydd amgueddfa, athro, darlithydd, atgyweirid celf, dylunydd graffeg, dylunydd ffasiwn, awlydd llwyfan ar gyfer teledu, film neu theatr, pensaer. Mae'r cwrs hwn hefyd yn nghydlynol a gwerthfawr ar gyfer myfyrwyr na fyddant yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc ymhellach.

# Cemeg

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	5 Cymhwyster Lefel 2 O leiaf B TGAU yn y pwnc i ddilyn yn UG	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	CBAC (www.cbac.co.uk)

## Pam astudio Cemeg?

- Mae cemeg UG yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth a ddatblygwyd ar lefel TGAU.
- Mae'r cwrs yn addas ar gyfer myfyrwyr sydd am ehangu eu dealltwriaeth o'r cysyniadau sylfaenol yng nghemeg.
- Mae'r unedau yn cynnwys gwaith ar brif feysydd y pwnc; cemeg organig, anorganig, ffisegol a dadansoddol.
- Mae'n integreiddio theori a gwaith arbrofol a datblygu sgiliau ymchwiliol.
- Fe fydd cyfle i wneud gwaith ymarferol yn y labordai ym Mhrifysgol Caerdydd er mwyn cael blas ar waith ymchwil.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

- Mae'r cwrs yn rhoi cyfle i ddefnyddio damcaniaethau, modelau a syniadau i ddatblygu ac addasu esboniadau gwyddonol, cyflawni gweithgareddau arbrofol ac ymchwiliol, dadansoddi a dehongli data i ddarparu tystiolaeth, gan adnabod cydberthyniadau a pherthnasedd achosol.
- Mae yna gyfanswm o chwech uned, tair uned UG a thair uned A2. Mae'r UG yn ymwneud â newid cemegol, bondio, adeiledd a phriodweddau. Mae A2 yn atgyfnerthu hyn gyda dadansoddi ac adeiladu moleciwlai, cemeg ffisegol ac anorganig.

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	CH1	Rheoli a mesur newid cemegol	Arholiad 20%
	CH2	Priodweddau, adeiledd a bondio	Arholiad 20%
	CH3	Uned ymarferol	Arholiad Ymarferol 10%
Uwch	CH4	Dadansoddi ac adeiladu moleciwlau	Arholiad 20%
	CH5	Cemeg ffisegol ac anorganig	Arholiad 20%
	CH6	Uned ymarferol	Arholiad Ymarferol 10%

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae cyfleoedd gyrfael yn eang iawn i ddisgyblion sydd yn dilyn y cwrs gan gynnwys ym myd; Cemeg, Fferylledd, Meddygaeth, Milfeddygaeth, Peirianwaith, Gwyddoniaeth Fforensig, Biotechnoleg, Addysg. Yn ogystal, mae'r sgiliau dehongli a dadansoddi sydd yn cael eu datblygu wrth astudio'r pwnc yn ddennad iawn i feysydd trallath i'w ymchwiliol.



# Cymdeithaseg

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	CBAC (www.cbac.co.uk)

## Pam astudio Cymdeithaseg?


Wrth astudio Cymdeithaseg byddwch yn dod i ddeall y gymdeithas a'r hyn sy'n digwydd o fewn ein cymdeithas. Mae pwyslais ar astudio sefydliadau 'mawr' y gymdeithas, megis system addysg neu'r system ddosbarth, ond hefyd mae cyfle i astudio grwpiau llai, mwy penodol e.e. troseddwr, aelodau o is-ddiwylliannau pobl ifanc. Mae'n gwrs sy'n datblygu nifer o sgiliau pwysig. Rhaid defnyddio ymchwil, astudiaethau a theorïau, er mwyn dadansoddi ac egluro'r hyn sy'n digwydd o fewn cymdeithas.

## Beth yw cynnwys y cwrs?

	Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	SY1	<b>Caffael Diwylliant:</b> Mae'r uned yn gyflwyniad i'r pwnc ac i'r broses o gymdeithasoli a diwylliant. O fewn y themau hyn canolbwyntir ar y ffordd y mae ymddygiad yr unigolyn a'r grŵp yn cael ei ddysgu a'i atgyfnerthu. Rhaid astudio un o'r canlynol yn fanwl: • Teuluoedd a Diwylliant, • Diwylliant Ieuencid, • Y Gymuned a Diwylliant.	Arholiad Allanol 20%
	SY2	<b>Deall Diwydiant:</b> Wrth astudio'r uned bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r ffordd y mae rhai strwythurau'n effeithio ar unigolion. <i>Astudir un neu ddau o'r canlynol:</i> • Addysg; Y Cyfryngau; • Crefydd; • Dulliau Ymchwil Cymdeithasegol	Arholiad Allanol 30%
Uwch	SY3	<b>Deall Grym a Rheolaeth:</b> Astudir un o'r canlynol: • Trosedd a Gwyredd; • Gwleidyddiaeth; • Iechyd	Arholiad Allanol 20%
	SY4	<b>Deall Rhaniadau Cymdeithasol:</b> Bydd myfyrwyr yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o'r unedau blaenorol er mwyn cwblhau'r uned yn llwyddiannus. <i>Astudir un o'r canlynol:</i> • Cymdeithaseg Fyd-Eang; • Anghyfartaleddau Cymdeithasol. • Dulliau Ymchwil Cymdeithasegol	Arholiad Allanol 30%

## Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae'r mwyafrif o brifysgolion yn cynnig cyrsiau gradd mewn cymdeithaseg a/neu pynciau tebyg e.e. troseddeg, polisi cymdeithasol. Gall astudiaeth o'r pwnc hon gael gadarn i astudiaethau a hyfforddiant pellach mewn amrywiaeth eang o feysydd gyfraith, nyrsio, gwleidyddiaeth, gwaith cymdeithasol, dysgu, gwaith ymchwil.



## Chwaraeon (BTEC)

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
2 flynedd	4 Cymhwyster Lefel 2 a diddordeb yn y maes chwaraeon.	Lefel 3 Diploma Cyfrannol	EDEXCEL (www.edexcel.co.uk)

### Pam astudio BTEC Chwaraeon?

- Cwrs cyffroes i unrhywun sydd â diddordeb mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn ystod o weithgareddau corfforol.
- Ceir cyfle i wella perfformiad mewn dewis o weithgareddau, drwy waith ymarferol yn ogystal ag astudiaeth o'r holl agweddau sy'n arwain at wella perfformiad.
- Ceir gyfle i gyfarwyddo gyda'r amryw o weithdrefnau a sgiliau hyfforddi ac arwain yn ogystal â materion iechyd a diogelwch.
- Mae sgiliau allweddol yn rhan annatod o astudio BTEC Chwaraeon gyda nifer o gyfleoedd i'w defnyddio a'u hasesu e.e. cyfathrebu, datrys problemau, gweithio gydag eraill, gwella dysgu a pherfformiad.

### Beth yw cynnwys y cwrs?

Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
BL12	Uned 1 Egwyddorion Anatomeg a Ffisioleg mewn Chwaraeon	Asesir pob uned ar sail Portffolio
	Uned 2 Ffisioleg Mewn Ffitrwydd	
	Uned 3 Asesiad Risg mewn Chwaraeon	
BL13	Uned 4 Profion Ffitrwydd mewn Chwaraeon ac Ymarfer	
	Uned 5 Ymarferol Tîm Chwaraeon / Ymarferol Tîm Unigol	
	Uned 6 Arweiniaeth mewn Chwaraeon	
	Uned 7 Seicoleg Mewn Perfformiad Chwaraeon	

### Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae'r BTEC Cenedlaethol mewn Chwaraeon yn cynnig cyfleodd i ddysgwyr gael mynediad i gyflogaeth yn y sector chwaraeon neu hamdden actif, neu i ddilyn cwrs addysg uwch galwedigaethol fel y BTEC Cenedlaethol Uwch mewn Chwaraeon. Mae dilyn y cwrs hwn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd swyddi e.e. hyfforddi, dysgu, rheolaeth hamdden a chwaraeon, ac amryw o ardaloedd gwahanol o fywyd chwaraeon a hamdden.



## Cerddoriaeth

Hyd y cwrs	Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
UG- 1 flwyddyn Uwch- 2 flynedd (UG+1)	4 Cymhwyster Lefel 2	UG- Graddau A-E Uwch- Graddau A*-E	CBAC (www.cbac.co.uk)

### Pam astudio Cerddoriaeth?

I ddatblygu gwerthfawrogiad, dealltwriaeth a sgiliau o fewn cerddoriaeth.

### Beth yw cynnwys y cwrs?

Teitlau'r Unedau	Cynnwys	Dull Asesu / Arholiad
UG	MU1 Perfformiad unigol a/neu ensemble. Dylai'r perfformiad fod rhwng 8 a 10 munud o hyd. Dylai un darn adlewyrchu'r maes astudio a ddewisir.	<b>Perfformio 15%:</b> Asesir gan arholwr allanol sy'n ymweld â'r ganolfan
	MU2 2 ddarn cyferbyniol. Dylai'r cyfansoddiadau fod rhwng 4 a 8 munud o hyd. Bydd un cyfansoddiad yn dangos technegau a chonfensiynau cerddorol sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Cerddorol y Gorllewin a'r llall yn gyfansoddiad rhydd.	<b>Cyfansoddi 15%:</b> Gwaith Cwrs a safonir yn allanol
	MU3 Un arholiad gwrando mewn dwy ran. Rhan 1: Arholiad gwerthuso 1 awr o hyd wedi'i seilio ar ddetholiadau o gerddoriaeth (gweithiau gosod) a gymerir o ddau Faes Astudiaeth. Rhan 2: Dirnadaeth Glywedol 1 awr o hyd (cofnodi alaw, cyweiriau, cordiau, diweddebau) wedi'i seilio ar ddarnau o gerddoriaeth heb eu paratoi.	<b>Gwerthuso 20%:</b> Rhan 1: 12%, Rhan 2: 8%
Uwch	MU4 Perfformiad unigol a/neu ensemble. Dylai'r perfformiad fod rhwng 10 a 12 munud o hyd. Dylai un darn adlewyrchu'r maes astudio newydd (Cerddoriaeth yn yr 20fed a'r 21ain ganrif). Bydd yr astudiaeth arbenigol opsiynol yn cynnwys un darn sy'n adlewyrchu'r maes astudiaeth pellach.	<b>Perfformio 15-20%:</b> Asesir gan arholwr allanol sy'n ymweld â'r ganolfan. Rhan opsiynol 5%.
	MU5 2 ddarn cyferbyniol. Dylai'r cyfansoddiadau fod rhwng 6 a 10 munud o hyd. Bydd un cyfansoddiad yn dangos technegau a chonfensiynau cerddorol sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Cerddorol y Gorllewin a'r llall yn adlewyrchu'r maes astudio newydd. Bydd yr astudiaeth arbenigol opsiynol yn un cyfansoddiad rhydd, arloesol	<b>Cyfansoddi 15-20%:</b> Gwaith Cwrs a safonir yn allanol. Rhan opsiynol 5%
	MU6 Rhan 1: Arholiad gwrando 1 awr o hyd wedi'i seilio ar ddarnau anghyfarwydd o'r 20 <sup>fed</sup> a'r 21 <sup>ain</sup> ganrif. Rhan 2: arholiad gwrando /ysgrifenedig 1 awr o hyd lle mae gofyn i'r ymgeiswyr ddadansoddi gwaith gosod a rhoi perspectif cerddorol ehangach i'r gwaith. Bydd yr arholiad ysgrifenedig opsiynol yn gofyn i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o arddull gerddorol gyffredinol a chynnyrch un o gyfansoddwyr y gweithiau gosod.	<b>Gwerthuso 15-20%:</b> Un arholiad ysgrifenedig mewn dwy ran. Rhan 1: 6%, Rhan 2: 9%, Rhan opsiynol 5%

### Llwybrau'r Dyfodol / Gyrfâu:

Mae'r cwrs Safon Uwch yn galluogi myfyrwyr i ehangu'u sgiliau, eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o gerddoriaeth fel sail i astudiaeth bellach, bod hynny'n helpu i gyfer datblygiad personol a chymdeithasol.